# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Llanrhaeadr Ym Mochnant

Ysgol Llanrhaeadr ym Mochnant
Llanrhaeadr ym Mochnant
Croesoswallt Sir Amwythig
SY10 0LG

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Llanrhaeadr Ym Mochnant

| | |
|---|---|
| Enw’r lleoliad | Cylch Meithrin Llanrhaeadr Ym Mochnant |
| Categori’r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw’n berthnasol) | Lowri Jones |
| Person â gofal | Alwen Harding |
| Nifer y lleoedd | 16 |
| Amrediad oedran y plant | 2 oed i 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 8 |
| Nifer y plant sy’n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 4 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun, Mawrth a Gwener: 08.45yb - 15.15yp Dydd Mercher: Ar gau Dydd Iau: 08.45yb-11.15yb |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw’r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 07/11/2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 03/11/2016 |
| Dyddiadau’r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 10/10/2024 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Yr amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Adnabod cyfleoedd i ddathlu amrywiaeth a hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o amrywiaeth o fewn cymdeithas.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar eu gwaith mewn perthynas ag 'effaith arweinyddiaeth ar y ddarpariaeth ar gyfer y plant', i'w lledaenu ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Rhagorol**

Mae bron bob plentyn yn hapus ac yn mwynhau cwmni eu ffrindiau a'u hymarferwyr wrth iddynt gymdeithasu'n hwylus gyda'i gilydd. Maent yn gwneud penderfyniadau yn gyson sy'n cael effaith gadarn iawn ar eu lles a'u hunan-barch. Er enghraifft, wrth i blant golli diddordeb mewn gweithgaredd, maent yn dewis ar eu menter eu hunain i symud i ardal arall. Maent yn mwynhau rhyddid y llif agored i symud yn frwdfrydig o amgylch yr ardaloedd dysgu, megis y bwrdd crefft mewnol a'r blociau mawr yn yr awyr agored. Mae bron bob plentyn yn mynd at ymarferwyr yn hyderus ac yn cyd-chwarae gyda'i gilydd yn llwyddiannus iawn. Maent yn helpu eu hunain i adnoddau yn hyderus gan wybod bod ganddynt y rhyddid i wneud hynny. Er enghraifft, maent yn mwynhau dewis arbrofi gyda beiciau dwy neu dair olwyn, defnyddio morthwyl wrth y bwrdd gwaith neu arbrofi gyda dŵr. Mae bron bob plentyn yn gyfforddus ac yn hyderus i ofyn am gymorth os ydynt yn gweld tasg neu weithgaredd yn heriol, er enghraifft wrth agor poteli chwistrellu, meistroli'r ffynnon ddŵr, neu ddefnyddio'r pegiau pren er mwyn gafael mewn eitemau o'u dewis.

Mae bron bob plentyn yn setlo'n gyflym ac yn mynd ati i chwarae'n hapus, yn egnïol a chyffrous. Maent yn ymdopi'n dda iawn ac yn teimlo'n ddiogel a chartrefol. Mae'r plant yn gyfarwydd ag arferion y dydd ac yn gwybod beth sy'n dod nesaf, sy'n creu ymdeimlad cryf o berthyn. Maent yn cael pleser wrth ddatblygu eu dealltwriaeth o'u hunaniaeth, eu cymuned a'u ffrindiau. Er enghraifft, wrth gofrestru, mae'r plant yn llawn cyffro i ateb cwestiynau ac yn gwenu wrth dderbyn canmoliaeth. Yn ystod

sesiwn dawnsio, mae plant sy'n llai hyderus yn ymgolli'n llwyr yn y weithgaredd ac yn gwenu a chwerthin gyda'i ffrindiau wrth chwifio darnau o ddefnydd.

Mae bron bob plentyn yn rhyngweithio'n hwylus ac yn datblygu eu medrau cymdeithasol wrth sgwrsio'n hapus a rhannu yn eu chwarae. Maent yn parchu teimladau a diddordebau eraill ac yn dysgu i gydweithio a chymryd tro. Er enghraifft, wrth arbrofi yn yr awyr agored gyda ffyn swigod, mae'r plant yn datrys problemau yn effeithiol trwy rannu hylif ymysg ei gilydd yn fedrus, gan ddathlu wrth weld eu swigod yn ymddangos yn yr awyr. Maent yn datblygu perthnasoedd agos a chynnes â'r ymarferwyr ac yn rhyngweithio'n hyderus ag ymwelwyr. Mae plant yn dangos balchder ac yn mwynhau dangos beth maent yn gallu ei gyflawni megis wrth gymharu siapiau maent wedi eu creu o ddeunyddiau naturiol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn frwdfrydig iawn yn eu chwarae ac yn dyfalbarhau'n fwriadus ac yn hapus wrth ddysgu. Er enghraifft, maent yn mwynhau defnyddio offer go iawn gan ganolbwyntio'n ofalus ac ymgolli yn y dasg o daro hoelion i fewn i bwmpenni. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd defnyddio offer diogelwch dros eu llygaid wrth ymgymryd â'r dasg. Mae bron bob plentyn yn hyderus i arbrofi yn eu hamgylchedd. Er enghraifft, maent wrth eu bodd yn cynhyrchu hylif gyda ffrwythau sitrig gan ddefnyddio rhidyllau a hidlyddion i greu te lemwn ac oren.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol gwych, wrth iddynt roi cynnig yn frwdfrydig ar dasgau ar eu pen eu hunain. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o blant yn dewis cân i'w chanu yn annibynnol drwy gymryd llwy bren. Yn ogystal, maent yn mwynhau'r annibyniaeth wrth ddefnyddio'r sinc isel i olchi a sychu eu dwylo heb gymorth ac yn dangos pleser wrth osod y bwrdd ar gyfer amser byrbryd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn llwyddiannus wrth iddynt ddefnyddio jygiau bach i arllwys llaeth neu ddŵr i'w cwpanau. Maent yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau wrth gwblhau tasgau fel helpu i dacluso llestri go iawn. Yn ogystal, maent yn dangos gwir falchder wrth fabwysiadu rôl 'Helpwr Heddiw' ac yn dangos bodlonrwydd llwyr wrth gyflawni eu tasgau.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau'n llawn i gadw plant yn ddiogel ac yn blaenoriaethu eu hiechyd a'u diogelwch yn llwyddiannus. Maent yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau cadarn yn effeithiol. Mae ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant priodol ar ddiogelu plant a chymorth cyntaf ac yn cadw cofnodion clir a chywir ar gyfer damweiniau a digwyddiadau. Maent yn darparu byrbrydau amrywiol ac iach gan ddilyn gweithdrefnau cadarn o ran hylendid yn ystod cyfnodau byrbryd a chinio. Mae ymarferwyr yn wybodus iawn am eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant ag alergeddau ac mae ganddynt weithdrefnau clir i weinyddu meddyginiaeth. Maent yn sicrhau urddas a phreifatrwydd llwyr wrth ddilyn polisi newid clytiau ac maent yn cadw cofnodion cywir. Mae gan yr ymarferwyr system gofrestru drwyadl a threfnus ac

mae ganddynt gofnodion caniatâd clir ar waith. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan ymarferwyr berthynas arbennig â'r plant ac maent yn eu trin â gofal a pharch. Maent yn garedig iawn ac yn modelu rhyngweithiadau rhagorol mewn modd didwyll, gan gynnwys addysgu'r plant i ystyried eu gwerthoedd ac i rannu a chymryd tro. Mae ymarferwyr yn arsylwi, gwrando ac egluro mewn modd gofalgar a thyner sy'n meithrin perthnasoedd clós a theimlad cryf o berthyn. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn canmol plant mewn modd ystyrlon ac yn eu hannog i roi cynnig ar y gweithgareddau. Mae ymarferwyr yn sgwrsio neu'n canu mewn modd cynnes iawn sy'n meithrin awyrgylch dawel a diogel. Maent yn modelu'r Gymraeg yn glir ac yn barhaol sy'n cael effaith amlwg iawn ar ddealltwriaeth y plant. Mae ymarferwyr wrth law bob amser. Er enghraifft, maent yn eistedd wrth y bwrdd gyda'r plant yn ystod cyfnodau byrbryd ac yn atgyfnerthu moesau da a chwrteisi yn llwyddiannus iawn.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion a'u dymuniadau unigol. Maent yn cynnig cefnogaeth pan mae plant yn gofyn amdani, er enghraifft wrth iddynt ddatblygu eu medrau i greu rhifau ar lechi digidol fel rhan o'r broses gofrestru ddyddiol. Mae ymarferwyr yn wybodus iawn am weithdrefnau ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent wedi sefydlu partneriaethau cadarn er mwyn darparu cefnogaeth benodol yn unol ag anghenion datblygiad y plant. Maent yn annog a chefnogi plant i feddwl, i fod yn hyderus a datrys problemau'n annibynnol. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd mewn modd creadigol iawn ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddarparu profiadau amrywiol sy'n cymell y plant i ddysgu trwy chwarae. Maent yn darparu profiadau arbennig iddynt ddefnyddio adnoddau o ansawdd uchel. Er enghraifft, mae amrediad cyfoethog o offer go iawn megis llestri ac offer adeiladu er mwyn cyflwyno cyfrifoldebau a magu medrau bywyd. Mae ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd buddiol i fwynhau storïau mewn modd agos, ac yn datblygu dealltwriaeth y plant i ddysgu am eu teimladau, a'u hunaniaeth eu hunain.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol**

Mae ymarferwyr yn darparu cwricwlwm eang a chyfoethog ar gyfer y plant yn eu gofal. Maent yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r rhieni er mwyn cynnwys diddordebau'r plant wrth gynllunio ac addasu'r ddarpariaeth. O ganlyniad, maent yn ychwanegu adnoddau pwrpasol sy'n sicrhau bod y plant yn ymgysylltu'n llwyr yn ystod eu cyfnodau chwarae a dysgu. Mae gan ymarferwyr wybodaeth drylwyr am ddiddordebau'r plant a dealltwriaeth o elfennau sy'n heriol iddynt. Mae hyn yn adlewyrchu'r bartneriaeth gref sy'n bodoli rhwng ymarferwyr a rhieni, ac yn hyrwyddo lles a dysgu'r plant yn llwyddiannus iawn.

Mae ymarferwyr yn llwyddo i greu cydbwysedd effeithiol o weithgareddau sy'n datblygu medrau penodol, ynghyd â chyfleoedd i blant chwarae am gyfnodau estynedig. Maent yn ymyrryd yn fedrus y chwarae, gan addasu eu cwestiynau ar gyfer plant unigol. Er enghraifft, maent yn defnyddio geirfa fwy estynedig gyda phlant sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, ac yn bwydo iaith yn llwyddiannus gyda phlant sy'n fwy newydd i'r iaith. O ganlyniad, mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n dda iawn. Mae ymarferwyr yn defnyddio caneuon cyfarwydd yn aml sy'n

galluogi'r plant i ddod yn gyfarwydd â'r eirfa sy'n gysylltiedig â gwahanol batrymau dyddiol.

Maent yn darparu cyfleoedd buddiol i'r plant ddatblygu eu medrau darllen cynnar trwy fwynhau llyfrau a straeon mewn awyrgylch hwyliog a chefnogol. Maent yn addysgu'r plant i adnabod eu henwau gan sylwi ar y llythyren gyntaf, ac yn adrodd straeon sydd o ddiddordeb i'r plant. Mae amrediad da o bypedau a theganau ar gael sy'n caniatáu i'r plant chwarae rôl a mwynhau datblygu hyder i fynegi eu hunain. Maent yn gosod enwau'r plant ar y bwrdd yn ystod amser byrbryd fel fod y plant yn dod i adnabod ffurf ysgrifenedig eu henwau. Ym ogystal, mae'r plant yn mwynhau creu marciau ar y bwrdd du mawr yn yr ardal allanol.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd cyfoethog i'r plant ddatblygu medrau modur mân, er enghraifft wrth daro hoelion yn fedrus i mewn i bren balsa neu i groen pwmpen fawr. Mae gan y plant fynediad rheolaidd at ardaloedd allanol fel ardal y goedwig, lle cânt ddatblygu medrau corfforol, a rheoli risgiau'n aeddfed. Mae ymarferwyr yn annog datblygiad medrau rhifedd yn fedrus, er enghraifft wrth i blentyn greu siâp petryal o foch coed roeddent wedi eu casglu. Mae cyfleoedd buddiol i'r plant ddatblygu eu medrau digidol, gan gynnwys defnyddio clorian ddigidol yn yr ardal chwarae rôl.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rhagorol i blant ddatblygu creadigrwydd. Maent yn datblygu ymwybyddiaeth o rythm mewn cerddoriaeth, gan ddefnyddio amrediad o offerynnau taro. O ganlyniad, mae'r plant yn ymgolli'n llwyr ac yn mynegi eu hunain yn fedrus iawn wrth iddynt chwifio gwahanol ddeunyddiau ysgafn o'u cwmpas i gyd-fynd â rhythm y gerddoriaeth.

Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu buddiol sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth gymdeithasol, moesol ac ysbrydol y plant a'u dealltwriaeth o draddodiadau diwylliannau eraill. Er enghraifft, maent yn dathlu digwyddiadau fel Diwali ac yn darparu amrediad o adnoddau fel offer cegin a dillad amrywiol i gyfoethogi profiadau'r plant. Er hyn, nid yw'r cyfleoedd i'r plant ddysgu am amrywiaethau o fewn cymdeithas wedi eu datblygu'n llawn.

Mae gan ymarferwyr ymwybyddiaeth drylwyr o ddatblygiad y plant, ac am y camau nesaf sydd eu hangen i ddatblygu eu medrau ymhellach. Mae'r gwaith hwn yn drylwyr ac effeithiol iawn ac yn hyrwyddo'r dysgu yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni yn gyson trwy ddulliau digidol a thrwy gyfarfodydd rheolaidd.

**Yr amgylchedd: Rhagorol**

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth drylwyr iawn o bwysigrwydd darparu amgylchedd sy'n ddiogel a glân ac mae ganddynt weithdrefnau cyrraedd a gadael cadarn. Mae ymwelwyr yn mewngofnodi ar safle'r ysgol a'r lleoliad ac mae cofnodion clir o bob ymweliad. Mae arweinwyr yn sicrhau bod cofnodion cynnal a chadw'r adeilad yn gyfredol ac maent yn cynnal gweithdrefnau effeithiol i sicrhau bod ymarferion diogelu fel driliau tân yn gadarn, yn rheolaidd a phwrpasol. Yn ogystal, mae arweinwyr yn cynnal asesiadau risg clir ac ystyrlon ar gyfer y lleoliad, teithiau a gweithgareddau. Maent yn sicrhau eu bod yn adolygu'r rhain yn rheolaidd a'u defnyddio mewn modd effeithiol a phwrpasol yn unol ag amserlen cynllunio'r lleoliad. Mae diogelwch y plant

yn hollol ganolog i'r broses hon. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn darparu ardaloedd cyfleus ar y safle lle mae gwybodaeth fanwl a diddorol ar gael i rieni, sy'n cynnwys polisïau, gweithdrefnau diogelu a rhagflas o weithgareddau'r wythnos.

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd o ansawdd uchel iawn sy'n groesawgar a chartrefol. Maent yn sicrhau diogelwch, preifatrwydd a lle digonol ar gyfer nifer y plant sy'n mynychu'n ddyddiol. Maent yn gwneud defnydd hynod effeithiol o gyfleusterau'r safle megis y brif ystafell a'r ardaloedd allanol caeedig. Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd sy'n cynnig mynediad parhaus i blant gael chwarae a dysgu mewn amgylchedd ysgogol a chartrefol. Yn ogystal, maent yn darparu amgylchedd allanol cyffrous, sy'n cynnig ystod o ardaloedd amrywiol a diogel gan gynnwys cyfarpar dŵr, marcio ac adeiladu, ynghyd â llwybrau i ddatblygu medrau corfforol. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd cyson ac effeithiol o ardaloedd coediog y safle sy'n caniatáu i'r plant ddatblygu hyder a medrau cydweithio, er enghraifft wrth fynd ar helfa drysor gyffrous. Maent yn manteisio ar yr ardal allanol ychwanegol sy'n cynnig heriau ymestynnol a phrofiadau dysgu a chwarae buddiol yn yr awyr agored. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn achub ar bob cyfle i wneud defnydd effeithiol o ardaloedd ychwanegol y safle, gan gynnwys defnyddio neuadd yr ysgol ar gyfer dawns a'r ystafell enfys ar gyfer mwynhau storïau. Mae'r trefniadau hyn yn werthfawr i les a datblygiad y plant ac yn amlygu'r cydweithio ardderchog rhwng yr arweinwyr a'r ysgol.

Mae arweinwyr yn adeiladu ystod helaeth o adnoddau rhagorol i blant ar gyfer eu datblygiad a'u hoedran, megis offer sbardunol sydd wedi eu creu ganddynt allan o ddefnydd ailgylchu sy'n hybu negeseuon cynaliadwyedd cadarn. Maent yn eu gosod ar lefelau isel er mwyn hybu annibyniaeth y plant a dilyn eu diddordebau. Er enghraifft, maent yn darparu poteli a chardfwrdd er mwyn i'r plant fedru creu adnoddau creadigol dychmygus. Mae arweinwyr yn cynnig cyfleoedd di-ri i blant ddatblygu eu dychymyg ac arbrofi wrth drin adnoddau go iawn fel llysiau a ffrwythau yn yr ardal chwarae rôl. Yn ogystal, maent yn darparu adnoddau pwrpasol fel offer cartref a chês mawr yn cynnwys dillad, er mwyn i blant ddatblygu chwilfrydedd a defnyddio dychymyg i gynllunio taith ddychmygus.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae arweinwyr yn cydweithio'n llwyddiannus ac maent yn rhannu'r un weledigaeth glir ar gyfer cynnal darpariaeth o'r safon uchaf ar gyfer y plant yn eu gofal. Mae'r arweinwyr a'r staff yn angerddol am eu gwaith wrth ddatblygu medrau'r plant a gofalu am eu lles. Mae arweinwyr yn rhannu cyfrifoldebau yn ystyrlon ac yn darparu cefnogaeth o ansawdd uchel ar gyfer y staff. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda iawn o Gwricwlwm i Gymru ac mae eu gwaith yn dylanwadu'n rhagorol ar les plant a'u cynnydd.

Mae arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau hunanwerthuso trwyadl a chadarn sydd wedi arwain at ddiwylliant o welliant parhaus. Maent yn craffu ar y ddarpariaeth gan ystyried yr arferion gorau cyfredol, er mwyn adnabod agweddau a fyddai'n elwa o'u datblygu ymhellach. Mae arweinwyr yn cywain barn rhanddeiliaid, gan ystyried sylwadau partneriaid allweddol wrth gytuno ar flaenoriaethau gwelliant. Yn ôl yr angen, maent yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ymarferwyr fynychu hyfforddiant, neu'n trefnu ymweld â lleoliadau eraill er mwyn rhannu syniadau a chraffu ar arferion da. Er enghraifft, cafwyd cyfleoedd i ymarferwyr ymweld â lleoliadau cyfagos er

mwyn ehangu eu defnydd o’r ardal allanol. Mae’r arweinwyr yn cydweithio’n bwrpasol er mwyn sicrhau bod y gwaith gwella yn rheoladwy, ac yn canolbwyntio ar ddatblygu profiad y plentyn. Maent yn pennu cerrig milltir synhwyrol, ac yn gwerthuso effaith eu gwaith yn rheolaidd.

Mae arweinwyr yn rheoli staff ac adnoddau yn effeithiol iawn. Mae’r ymarferwyr yn elwa’n sylweddol o gyfarfodydd gwerthuso rheolaidd sy’n cael eu harwain gan aelodau’r pwyllgor rheoli. Mae hyn yn sicrhau bod gwaith y pwyllgor yn gynaliadwy, ac yn lledaenu arferion cryf. O ganlyniad, mae arweinwyr yn darparu ystod addas o hyfforddiant yn unol ag anghenion ymarferwyr, sy’n cyfrannu’n dda at yr ymdeimlad eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae amrediad o bartneriaethau cryfion yn cael effaith ragorol ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn cydweithio’n llwyddiannus iawn â’r ysgol. Er enghraifft, mae’r plant yn cael cyfleoedd buddiol i dreulio amser yn ardal y goedwig yn ogystal â bwyta eu cinio yn neuadd yr ysgol yn ddyddiol, sy’n hwyluso’r trefniadau wrth iddynt symud i’r cam nesaf yn eu dysgu. Mae ymarferwyr yn cydweithio’n agos â thîm ymgynghorol y blynyddoedd cynnar yr awdurdod lleol, a gyda mudiadau ymbarél i wella ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau’r plant.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo ymdeimlad o berthyn ymysg y plant yn llwyddiannus trwy ddigwyddiadau cymunedol fel achlysur ‘rhywbeth neis i de,’ ac ymweliadau â’r eglwys leol adeg y Pasg. Mae hyn yn hyrwyddo ymdeimlad y plant o fod yn rhan o’r gymuned Gymraeg leol yn effeithiol dros ben. Mae aelodau’r clwb garddio lleol yn ymweld â’r lleoliad er mwyn datblygu ymwybyddiaeth y plant o fyd natur ac o ble mae ein bwyd yn dod.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/12/2024